

Gweithgaredd 2: Archwilio Alawon


Bydd y gerddorfa'n chwarae **Concerto Rhif 4 Mozart i'r Corn (3ydd symudiad)**.

Gwrandewch am y cyfarwyddiadau yn ystod y wers. Pan mae'r gerddorfa'n chwarae, gwrandewch yn ofalus am thema'r alaw sy'n wyth bar ac yn ymddangos drwy'r darn i gyd.

Sawl gwaith wnaeth yr unawdydd chwarae'r thema?

- a) Pedair gwaith
- b) Saith gwaith
- c) Deg gwaith

Mae ysbrydoliaeth ar gyfer alawon o'ch cwmpas ym mhob man. Beth am ddewis y llythrennau yn eich enw cyntaf ar yr allweddell isod. Os nad oes rhai, meddyliwch am enw arall, fel enw eich anifail anwes, enw person enwog rydych chi'n hoff ohono, neu enw'ch cartref. Lliwiwch y nodau sy'n cynnwys y llythrennau perthnasol!



Byddai tri nodyn yn fan cychwyn da ar gyfer eich cyfansoddiad. Gofynnwch i'ch athro anfon eich nodau atom yn live.lessons@bbc.co.uk cyn neu yn ystod y Wers Fyw ac fe allent ymddangos ar y rhaglen fyw.

Nawr eich bod wedi dod o hyd i nodau, gallwch eu defnyddio i greu alaw drwy eu cyfuno â'r rhythm yng Ngweithgaredd 1.

Os oes gennych chi offeryn traw, ceisiwch newid pethau o gwmpas drwy ddefnyddio'r nodau mewn gwahanol drefn neu eu hailadrodd nes byddwch yn creu alaw rydych chi'n ei hoffi. Rydych chi wedi dechrau ar eich cyfansoddiad cyntaf!